# *The Hunchback in the Park*: Llyfr Gwaith - Fesul Pennill

## Gwers 3: Dadansoddi Barddoniaeth

The hunchback in the park
A **solitary** mister
Propped between trees and water
from the opening of the garden lock
That lets the trees and water enter
Until the **Sunday sombre bell** at dark

Meddyliwch am sain y gloch - â beth arall fyddech chi'n cysylltu hyn?

Pa ddelweddau y mae ail linell y gerdd yn eu hawgrymu i chi? Sut mae hyd y llinell yn helpu i greu'r ddelwedd hon?

Beth, yn eich barn chi, y mae'r gair 'propped' yn ei awgrymu am y cymeriad yn y gerdd?

Pam mae'r bardd yn disgrifio'r gloch fel hyn: 'Sunday sombre'? Pam mae'r cyflythreniad yn bwysig yn y llinell hon?

Mae cyflythreniad (alliteration yn Saesneg) yn tynnu sylw darllenydd at y llinell, felly mae'n pwysleisio'r testun yn y llinell honno.

Eating bread from a newspaper
Drinking water from the **chained** cup
That the children filled with gravel
In the fountain basin **where I sailed my ship**
slept at night in a dog kennel
But nobody chained him up.

Mae defnyddio'r rhagenw personol 'I' yma'n dangos profiadau personol y bardd yn y parc.

Beth mae'r bechgyn yn ei wneud i wawdio'r crwca? Pam maen nhw'n gwneud hyn, yn eich barn chi?

Beth yw effaith cymharu'r crwca â chi? Meddyliwch am farn cymdeithas am y crwca.

Pam rydych chi'n meddwl y dewisodd y bardd ddefnyddio'r ferf "chained" ddwywaith yn y pennill hwn? Pa effaith y mae hyn yn ei chael ar greu cymeriad?

**Like the park birds he came early**
**Like the water he sat down**
And Mister they called Hey Mister
The truant boys from the town
Running when he heard them clearly
On out of sound

Mae Thomas yn defnyddio cymariaethau â byd natur ac anifeiliaid i bwysleisio statws y crwca yn y gymdeithas.

Sut mae Thomas yn cyflwyno'r bechgyn yn y pennill hwn?

Past lake and rockery
**Laughing** when he shook his paper
Hunchback in **mockery**
Through the **loud zoo** of the willow graves
**Dodging** the park keeper
With his stick that picked up leaves

Ai 'a loud zoo' yw'r parc mewn gwirionedd? Ydy'r geiriau sydd mewn print trwm uchod yn gwneud ichi gydymdeimlo â'r crwca?

Sut mae Thomas yn adlewyrchu cyflymder symudiadau'r bechgyn drwy'r ffordd y mae'n trefnu'r pennill? Meddyliwch am seiniau llythrennau (garw neu lyfn), yr atalnodi a strwythur y brawddegau/ hyd y llinellau.

and the **old dog sleeper**
**Alone between nurses and swans**
While the boys among willows
Made the tigers jump out of their eyes
To **roar** on the rockery stones
And the groves were blue with sailors

Mae 'onomatopeia' yn cael ei ddefnyddio gyda "roar" yma.

Mae cyfeiriad arall at anifeiliaid yma gyda "old dog sleeper".

Pa ddelwedd y mae'r bardd yn ceisio ei chyflwyno pan fydd yn disgrifio'r bechgyn yn y llinell 'Made the tigers jump out of their eyes'?

Beth rydych chi'n ei gysylltu â delweddau'r nyrsys a'r elyrch sy'n cael eu cyflwyno yma?

Made all day until bell time
**A woman figure without fault**
**Straight as a young elm**
**Straight and tall from his crooked bones**
**That she might stand in the night**
After the locks and chains

Edrychwch yn ofalus ar y disgrifiad o'r fenyw sydd uchod. Beth mae'r ffordd y mae'r crwca'n gweld y fenyw yn dweud wrthym am ei gymeriad ei hun?

All night in the unmade park
After the railings and shrubberies
**The birds the grass the trees the lake**
And the wild boys **innocent as strawberries**
Had followed the hunchback
**To his kennel in the dark.**

Edrychwch ar y diffyg atalnodi yn llinell 39 “The birds the grass the trees the lake”. Beth yw effaith y ffaith fod y bardd yn peidio atalnodi yma?

Pam, yn eich barn chi, mae'r bardd yn defnyddio cymhariaeth i ddisgrifio'r ffordd y mae'r bechgyn yn poeni'r crwca fel, "innocent as strawberries"?

# Gwers 6:

## Prif Weithgaredd

Beth yw eich ymateb chi i'r ffordd y mae'r crwca'n cael ei gyflwyno yn y gerdd? Ydych chi'n teimlo unrhyw gydymdeimlad tuag ato? Trafodwch sut mae Thomas yn ei gyflwyno gan ddefnyddio tystiolaeth o'r testun i gefnogi eich barn.

## Tasgau Atodol:

1. Ysgrifennwch sgript rhwng y crwca ac un o'r bechgyn sy'n ei wawdio yn y parc. Cyflwynwch hyn i'r dosbarth fesul pâr.

2. Dychmygwch mai chi yw'r crwca. Ysgrifennwch fonolog am ei deimladau a'i feddyliau preifat wrth iddo eistedd ar y fainc. Ystyriwch ei ymateb i'r pethau y mae'n eu gweld a'u clywed yn y parc. Hefyd, ystyriwch ei orffennol, ac o bosib ei freuddwydion i'r dyfodol.